**CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# SWYDDOG LLYWODRAETHU

## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2024

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei lunio gan Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent. Mae'n crynhoi gweithgareddau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent ('Y Bwrdd') yn ystod y flwyddyn academaidd hyd at 31 Gorffennaf 2024. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd bod y Gorfforaeth wedi bodloni ei chyfrifoldebau statudol ac wedi gweithredu o fewn ei gallu a'r strwythur llywodraethu fel a osodwyd yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r coleg.

1.2 Mabwysiadodd Goleg Gwent y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru (Y Cod) ym mis Hydref 2016. Mae'r Cod yn crynhoi cyfrifoldebau statudol y Bwrdd ac yn nodi'r arfer orau a argymhellir mewn perthynas â llywodraethu'r coleg. Mae Bwrdd Coleg Gwent yn ceisio bodloni (a mynd y tu hwnt i, lle bynnag y bo'n bosibl) y disgwyliadau a nodwyd yn Y Cod.

## 2. AELODAETH Y BWRDD

### 2.1 Cyfansoddiad

2.1.1 Aelodaeth y Bwrdd a bennwyd yw 22 o Lywodraethwyr, yn cynnwys:

- 16 Llywodraethwr Annibynnol
- Y Pennaeth/Prif Weithredwr
- 2 Llywodraethwr Staff
- 2 Llywodraethwr Myfyrwyr AB
- 1 Llywodraethwr Myfyriwr AU

Yn ychwanegol at y Llywodraethwyr, mae hyd at dri Aelod Allanol Annibynnol yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio i ddarparu arbenigedd a throsolwg annibynnol ychwanegol.

### 2.2 Cymhwystra

2.2.1 Mae ymgeiswyr sy'n cael eu hystyried am benodiad i'r Bwrdd yn cael eu darparu â gwybodaeth ynghylch y meini prawf cymhwystra ar gyfer penodiadau i'r Bwrdd ac fel Ymddiriedolwr Elusennol. Mae gofyn i ymgeiswyr lofnodi datganiad yn cadarnhau eu bod nhw'n bodloni'r meini prawf dan sylw. Mae penodiad yn amodol ar gwblhau gwiriadau addasrwydd a gynhelir gan y Swyddog Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau yn erbyn y Gofrestr Cyfarwyddwyr Anghymwys a'r Gofrestr Ansolfedd. Mae hefyd yn ofynnol i bob aelod gwblhau cais y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) Manylach. Mae aelodau'r Gorfforaeth yn llofnodi'n flynyddol i gadarnhau eu haddasrwydd parhaus i wasanaethu.

### 2.3 Cyfnod y Penodiad

2.3.1 Gan eithrio'r Pennaeth/Prif Weithredwr a'r Llywodraethwyr Myfyrwyr, mae pob aelod yn cael ei benodi am dymor o dair blynedd yn y rôl. Gall unigolyn wasanaethu uchafswm o dri thymor yn y rôl (cyfanswm o 9 mlynedd). Mae'r Bwrdd o'r farn bod tymor o'r hyd hwn yn galluogi Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r coleg a'r materion sy'n cael effaith ar ei weithrediad. Mae hefyd yn sicrhau parhad o fewn y gwaith arwain, gan gynnal annibyniaeth a galluogi'r cyflwyniad rheolaidd o safbwyntiau newydd.

2.3.2 Nid yw ailbenodiadau yn cael eu gwneud yn awtomatig ar ddiwedd bob tymor tair blynedd. Gall Llywodraethwyr Annibynnol ac Aelodau Allanol wneud cais am ailbenodiad. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol i ail-benodi aelod, ar argymhelliad y Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu. Yn gyntaf, mae'n rhaid i Lywodraethwyr Staff gael eu hail-ethol gan eu cyfoedion. Wrth ystyried cais am ailbenodiad, mae'r pwyllgor yn adolygu cyfraniad, ymrwymiad a phresenoldeb yr aelod ynghyd ag anghenion aelodaeth presennol y Bwrdd cyfan.

2.3.3 Penodir Llywodraethwr Myfyrwyr i'r rôl am dymor, fel arfer. Gall hyn gael ei ymestyn os yw'r Bwrdd yn credu ei fod o fudd i'r coleg. Yn amodol ar estyniad neu gael eu hail-ethol, gall Llywodraethwyr Myfyrwyr wasanaethu am hyd at gyfanswm o dair blynedd

## 2.4 Cadeirydd ac Is-gadeirydd

2.4.1 Mae'r Bwrdd yn gweithredu gyda Chadeirydd ac un Is-gadeirydd. Mae pob un yn cael eu hethol gan y Bwrdd i wasanaethu am ddau dymor yn y rôl. Yn amodol ar gael eu hail-ethol, gall aelodau wasanaethu tri thymor (cyfanswm o chwe blynedd) yn y rolau hyn. Mae ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn digwydd bob yn ail flwyddyn er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio olyniaeth yn effeithiol a sicrhau parhad o fewn arweinyddiaeth.

2.4.2 Parhaodd Mr Mark Langshaw i wasanaethu fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yn ystod 2023-24. Cafodd ei benodi i'r rôl am y tro cyntaf ym mis Awst 2018, a chafodd ei ail-ethol yn 2020 ac yna yn 2022 i wasanaethu hyd at fis Gorffennaf 2024.

2.4.3 Mae'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu'n ystyried cynllunio olyniaeth yn gyson ar gyfer y ddwy rôl. Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, hysbysodd Pennaeth/Prif Weithredwr Coleg Gwent, Guy Lacey, y Bwrdd o'i fwriad i ymddeol ym mis Medi 2024. Er mwyn parhau gydag arweinyddiaeth, cymeradwyodd y Bwrdd ymestyniad ar benodiad Mr Langshaw fel Cadeirydd am flwyddyn, hyd at fis Gorffennaf 2025.

2.4.4 Yr Is-gadeirydd yn ystod 2023-24 oedd Mrs Sue Ball. Etholwyd Sue i'r rôl am y tro cyntaf yn 2021 (yn wreiddiol i gwblhau tymor yr Is-gadeirydd blaenorol yn y swydd) ac wedi'i hail-phenodi ddwywaith, am y tro olaf ym mis Gorffennaf 2023. Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2024, cytunwyd y dylai penodiad Mrs Ball fel Is-gadeirydd gael ei ymestyn hyd nes fis Gorffennaf 2026 i gefnogi ymhellach y parhad o arweinyddiaeth a chynnal y patrymau penodiad bob yn ail flwyddyn ar gyfer bob rôl.

## 2.5 Penodiadau a Recriwtio

2.5.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth yn goruchwylio'r broses recriwtio. Mae'n llunio rhestr fer ac yn cwrdd â phob deiliad posibl. Mae bob penodiad yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd, ar argymhelliad y pwyllgor.

2.5.2 Mae'r broses recriwtio yn cael ei llywio gan adolygiad rheolaidd o broffil sgiliau'r Bwrdd. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y Bwrdd yr ystod gywir o sgiliau ac arbenigedd sydd ei angen i gynnal ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod y gwerth gall aelodaeth amrywiol ei gael ar y broses gwneud penderfyniadau ac mae wedi gwneud nifer o ymrwymiadau sy'n ymwneud ag amrywiaethau ei aelodau (gweler Adran 3).

2.5.3 Caiff y Llywodraethwyr Staff a'r Llywodraethwyr Myfyrwyr eu hethol gan eu cyfoedion, ond byddant hefyd yn cwrdd â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth i drafod eu rôl cyn i'r Bwrdd gymeradwyo eu penodiad yn derfynol.

## 2.6 Cynefino a Datblygu

2.6.1 Mae gan aelodau newydd fynediad at Becyn Cynefino electroneg. Mae hyn yn cynnwys copïau o ddogfennau llywodraethu allweddol yn cynnwys:

- Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent
- Rheolau Sefydlog y Gorfforaeth
- Memorandwm Ariannol o Ddealltwriaeth
- Y Cod Llywodraethu Da

- Canllaw Diogelu Llywodraeth Cymru
- Yr Ymddiriedolwr Hanfodol - Canllaw y Comisiwn Elusennol

Ceir hefyd wybodaeth am dîm rheoli'r coleg a chopïau o'r Cynllun Strategol a Strategaethau Cwricwlaidd ac Adrannol cyffredinol. Gellir cynnig y wybodaeth hon mewn fformatau eraill neu yn Saesneg fel bo'r angen. Mae deunyddiau cynefino yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

2.6.2 Mae aelodau newydd hefyd yn mynychu Cyfarfodydd Cynefino gyda'r Swyddog Llywodraethu, y Cadeirydd, y Pennaeth/Prif Weithredwr ac Is-benaethiaid. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnig trosolwg ar sut mae'r Bwrdd yn gweithredu, strwythur y coleg, a'r Genhadaeth a'r Weledigaeth strategol. Anogir pob Llywodraethwyr newydd i fanteisio ar y cyfle i ymweld â phob un o'r campysau ac i fynychu digwyddiadau ledled y coleg drwy gydol y flwyddyn.

2.6.3 Mae gan yr holl aelodau hawl i'r Swyddog Llywodraethu ac mae ystod o gyngor ac arweiniad ar gael drwy sianel Timau'r Gorfforaeth. Ar benodiad, mae Llywodraethwyr yn cwblhau modiwlau hyfforddiant gorfodol mewn Diogelu a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Maen nhw hefyd yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o gyfleoedd hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn. Yn ychwanegol, mae pob cyfarfod Bwrdd yn cynnwys Briffiau Datblygu ar agwedd benodol o'r coleg neu ei broses lywodraethu. Yn ystod 2023-24, ymdriniodd y briffiau hyn â:

- Diogelu a Llesiant Dysgwr
- Darpariaeth AU a phroffil ansawdd
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Amrywiaeth a Chynllun Cydraddoldeb Strategol y coleg.

2.6.4 Mae Seminarau Strategaeth sy'n cynnwys Llywodraethwyr a phob uwch arweinwr yn cynnig cyfle i ystyried materion strategol allweddol mewn mwy o fanylder. Yn ystod 2023-24, cyfrannodd Llywodraethwyr mewn tair Seminar Strategaeth ac ystyried amrywiaeth o feysydd gan gynnwys Iechyd Ariannol, datblygiad Ystadau, Marchnata, Risg, a Datblygiad Cwricwlwm parhaus.

2.6.5 Anogir Llywodraethwyr i ymgysylltu â digwyddiadau ehangach y coleg. Mae presenoldeb yn nigwyddiadau'r coleg yn cefnogi eu datblygiad a'u dealltwriaeth o waith y coleg. Yn ystod 2023-24, mynychodd Lywodraethwyr ddigwyddiadau fel Gwobrau Dysgwr mewn Addysg Bellach, Prentisiaethau a Dysgu Oedolion yn y Gymuned, a'r Noson Raddio Addysg Uwch. Gwnaethant hefyd ymgysylltu mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau ledled y coleg, megis Wythnos Senedd y DU, Dathliad Blwyddyn Newydd y Lleuad, perfformiadau, arddangosfeydd, a gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr.
Mae Cod Ymddygiad, Gwerthoedd ac Ymddygiadau'r Gorfforaeth yn nodi disgwyliad i Lywodraethwyr ymgysylltu mewn nifer o weithgareddau datblygu bob blwyddyn.

## 2.7 Aelodaeth yn ystod 2023-24

2.7.1 Y Llywodraethwyr a'r Aelodau Allanol a wasanaethodd ar Gorfforaeth Coleg Gwent yn ystod 2022/23 oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Mr Mark Langshaw MBE | Cadeirydd y Llywodraethwyr | |
| Mrs Sue Ball | Is-gadeirydd y Llywodraethwyr | |
| Mr Guy Lacey | Pennaeth/Prif Weithredwr | Ymddeolodd ym mis Medi 2024 |
| Mr Anthony Basnett | Llywodraethwr | |
| Mr Moawia Bin-Sufyan | Llywodraethwr | |

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Elizabeth Brimble | Llywodraethwr | |
| Mr Andrew Clark | Llywodraethwr | |
| Mr Joshua Davies | Llywodraethwr sy'n Fyfyriwr (AB) | Penodwyd ym mis Mai 2024 |
| Ms Delyth Evans | Llywodraethwr | |
| Mr Jamie Farr | Llywodraethwr | Daeth ei benodiad i ben yn Chwefror 2024 |
| Mrs Rhiannon Fowler | Llywodraethwr Staff (Cefnogi Busnes) | Ymddiswyddodd yng Ngorffennaf 2024 |
| Ms Eva Franklin | Llywodraethwr sy'n Fyfyriwr (AB) | Daeth ei phenodiad i ben ym Mai 2024 |
| Mr Christopher Freegard | Llywodraethwr | |
| Mrs Bailjit Gill | Llywodraethwr | |
| Mr Joe Horne | Llywodraethwr sy'n Fyfyriwr (AB) | Daeth ei benodiad i ben yng Ngorffennaf 2024 |
| Ms Claire Lloyd | Llywodraethwr sy'n Fyfyriwr (AU) | Ymddiswyddodd yn Ionawr 2024 |
| Mr Ray Morrison | Llywodraethwr | Daeth ei benodiad i ben yng Ngorffennaf 2024 |
| Mr John Phelps | Llywodraethwr | |
| Mr Matthew Preece | Llywodraethwr | |
| Mr Timothy Rathbone | Llywodraethwr | Penodwyd ym mis Mai 2024 |
| Ms Maria Retter | Llywodraethwr Staff (Addysgu) | Penodwyd ym mis Gorffennaf 2024 |
| Mrs Wendy Rogers | Llywodraethwr Staff (Addysgu) | Daeth ei phenodiad i ben yng Ngorffennaf 2024 |
| Mrs Elizabeth Swaffield | Llywodraethwr | |
| Mr Martin Veale | Llywodraethwr | Daeth ei benodiad i ben yn Ebrill 2024 |
| Mr Gareth Watts | Llywodraethwr | |
| Mr Rafiu Ajayi | Aelod Allanol, Pwyllgor Archwilio | Ymddiswyddodd ym Mai 2024 |
| Mrs Farishna Chohan-Solanki | Aelod Allanol, Pwyllgor Archwilio | |
| Dorota Lee | Aelod Allanol, Pwyllgor Archwilio | Daeth ei phenodiad i ben ym Mai 2024 |

### 2.8 Costau

2.8.1 Mae'r holl Lywodraethwyr a'r Aelodau Allanol yn gwasanaethu ar sail wirfoddol, di-dâl. Gall aelodau hawlio costau teithio neu gynhaliaeth resymol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u rôl. Mae costau yn cael eu hawlio drwy borth Adnoddau Dynol hunanwasanaeth y coleg, ac yn cael eu gwirio a'u hawdurdodi gan y Swyddog Llywodraethu. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 o fis Gorffennaf 2024, hawliwyd cyfanswm o £745.05.

## 3. AMRYWIAETH O FEWN Y BWRDD

### 3.1 Cynllun Gweithredu a Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd

3.1.1 Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar Ddatganiad Amrywiaeth y Bwrdd. Mae'n nodi ymrwymiadau'r Bwrdd, ynghyd â thargedau'n ymwneud ag amrywiaeth aelodau'r Bwrdd. Mae'r Datganiad Amrywiaeth a'r targedau amrywiaeth yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

3.1.2 Mae'r Bwrdd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Amrywiaeth yn seiliedig ar yr ymrwymiadau yn y Datganiad Amrywiaeth. Mae'r cynllun yn nodi wyth Gweithred Allweddol:

- Ymgorffori amrywiaeth ac arfer gynhwysol yn arfer y Bwrdd wrth wneud penderfyniadau ac ar draws ei holl waith.
- Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol Aelodau o faterion amrywiaeth.
- Sicrhau bod proses recriwtio'r Bwrdd yn cynorthwyo'r ymrwymiadau a nodir yn Natganiad Amrywiaeth y
- Bwrdd.

- Datblygu rhwydwaith ehangach o gysylltiadau (yn unigolion a sefydliadau) i gynorthwyo proses recriwtio
- fwy amrywiol.
- Cofnodi data amrywiaeth y Bwrdd fel ei fod yn cyd-fynd yn well â'r hyn a gedwir gan yr Adran AD ar staff
- y coleg.
- Monitro cynnydd (drwy'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu) yn erbyn yr ymrwymiadau a nodir
- yn Natganiad Amrywiaeth y Bwrdd.
- Cyhoeddi Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd a data ynghylch amrywiaeth y Bwrdd ar wefan y coleg.
- Adolygu a diweddaru Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd yn flynyddol.

3.1.3 **Mae cyflawniadau a gweithredoedd hyd yn hyn yn cynnwys:**

- Daeth staff a Llywodraethwyr Coleg Gwent y cyntaf yng Nghymru i gwblhau Cam 1 o hyfforddiant Gwrth-hiliaeth a hwyluswyd gan Race Council Cymru. Roedd yr hyfforddiant hwn yn cyd-fynd â gwaith arloesol Llywodraeth Cymru ar greu Cymru Gwrth-hiliaeth.
- Mae prosesau recriwtio'r Bwrdd wedi eu hadolygu a'u diweddaru. Mae dull newydd, mwy cynhwysol eisoes wedi cynorthwyo i ddenu ystod ehangach o ymgeiswyr.
- Adolygwyd a diweddarwyd polisïau'r Bwrdd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant.
- Mae papurau sydd wedi eu cyflwyno i'r Bwrdd gan reolwyr bellach yn cynnwys asesiad
  ar yr effaith ar grwpiau gwarchodedig.
  Mae dadansoddiad pellach o ddata gan nodweddion gwarchodedig
- Mae dadansoddiad pellach o ddata gan nodweddion gwarchodedig yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau allweddol megis digwyddiadau Diogelu, cwynion ayyb.
- Mae'r Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Llywio Cydraddoldeb, amrywiaeth a Chynhwysiant, ynghyd â'r Swyddog Llywodraethu.
- Mae'r Swyddog Llywodraethu'n parhau i weithio gyda Rheolwr Amrywiaeth, Cynhwysiant a Llesiant y coleg i ddatblygu cysylltiadau gydag ystod eang o gymunedau ac i nodi cyfleoedd i Lywodraethwyr ymgysylltu â digwyddiadau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Yn ystod 2023-24, roedd hyn yn cynnwys:
  - Ymweliad i fosg a phryd Iftar yn ystod Eid
  - Dathliad Blwyddyn Newydd y Lleuad
  - Grŵp Datblygu Arweinyddiaeth Ddu i'r Llywodraethwyr
  - Cam 2 hyfforddiant Gwrth-hiliaeth
- Yn ychwanegol, mynychodd y Llywodraethwyr ystod eang o arddangosfeydd, perfformiadau a dathliadau ledled y coleg.

## 3.2 Amrywiaeth y Bwrdd yn ystod 2023-24


3.2.1 Mae'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu'n adolygu a chynghori ar broffiliau sgiliau ac amrywiaeth y Bwrdd yn gyson. Mae newid graddol wedi ei weld ym mhroffil yr ymgeiswyr sy'n cael eu penodi i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio ac mae'r bwrdd wedi cydnabod bod angen ffocws ac ymrwymiad hirdymor i sicrhau aelodaeth wirioneddol amrywiol, a hynny wrth geisio sicrhau bod gan y Bwrdd y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol.

3.2.2 Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth ddadansoddiad manwl o broffil sgiliau ac amrywiaeth y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024. Mae data o'r adroddiad hwnnw wedi'i grynhoi isod mewn perthynas â'r targedau a nodir yn Natganiad amrywiaeth y Bwrdd (mae'r data'n cynnwys tri Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio).

3.2.3 Amrywiaeth y Bwrdd ym mis Ebrill 2024:

**Rhywedd**


Ein hymrwymiad - I gynnal niferoedd tebyg o aelodau gwryw a benyw, yn ogystal ag aelodau sydd â hunaniaeth anneuaidd neu drawsryweddol.




Mae'r cydbwysedd rhywedd wedi amrywio dros y blynyddoedd ac yn ystod 2023-24 roedd mwy o aelodau gwryw nag oedd o aelodau benywaidd. Yn ystod 23-24, nid oedd unrhyw un o'r aelodau â hunaniaeth anneuaidd neu drawsryweddol.

**Ethnigrwydd**

Ein hymrwymiad - I adlewyrchu amrywiaeth ethnig ein cymunedau'n well ac i gael o leiaf pum aelod sydd o gefndir Du, Asiaidd, neu o gefndir Ethnig Lleiafrifol.




Mae aelodaeth y gorfforaeth wedi mabwysiadu mwy o amrywiaeth ethnig yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2017-18, roedd 92% o'r aelodau yn nodi hunaniaeth 'Gwyn Prydeinig', ac erbyn mis Ebrill 2024, gostyngodd hyn i 71%.

**Rhywioldeb**

Ein hymrwymiad - Cynyddu'r nifer o aelodau o'r gymuned LHDTC+.

Cesglir y data hwn ers 2021/22 yn unig. Yn ystod 2023-24, nododd dau aelod eu bod â hunaniaeth ddeurywiol.


**Anabledd**

Ein hymrwymiad - Cynyddu'r nifer o aelodau sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.

Yn ystod 2023-24, nododd dau aelod o'r Gorfforaeth eu bod â chyflwr iechyd hirdymor.

**Yr Iaith Gymraeg**
Ein hymrwymiad - Cael o leiaf pedwar aelod sy'n siaradwyr Cymraeg (naill ai'n rhugl neu'n ddysgwyr lefel uwch).
Ym mis Ebrill 2024, nododd ddau aelod o'r Gorfforaeth eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac un yn ddysgwr ar lefel uwch.

**Oed**
Nid yw'r Bwrdd wedi gwneud ymrwymiad penodol mewn perthynas ag oed. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod ystod eang o wahanol oedran yn sicrhau cydbwysedd rhwng safbwyntiau ac arbenigedd. Ym mis Ebrill 2024, oedran cyfartalog y Gorfforaeth oedd 54 mlwydd oed. Cododd hyn o 51 mlwydd oed yn 2022-23.




## 4. GWRTHDARO BUDDIANNAU

### 4.1 Datganiadau o Fuddiant

4.1.1 Mae eitem agenda yn cael ei chynnwys ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor sy'n galluogi aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant mewn perthynas ag eitemau a phynciau trafod penodol. Cofnodir yr holl fuddiannau sy'n cael eu datgan, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd, yn y cofnodion yn ogystal ag mewn atodiad ar wahân i'r Gofrestr Buddiannau.

### 4.2 Cofrestr Buddiannau'r Aelodau yn ystod 2023-24

| Enw | Manylion y buddiant | Dyddiad y datgelwyd neu diweddarwyd y buddiant | Dyddiad diweddaru neu wirio'r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| **Susan Ball** | • Cyn-weithiwr - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (wedi Ymddeol 01/08/21 ond yn parhau i wneud gwaith ymgynghorol)<br>• Aelod o Gyngor Eglwys y Plwyf, Eglwys Sant Marc, Casnewydd<br>• Cynnal gwaith i Gyngor Nyrsio a Bydwragedd (Rheoleiddiwr) Yn gweithredu fel Cadeirydd Addasrwydd i wrandawiadau Ymarfer | 01.08.21<br>26.03.18<br>17.11.22 | 16.01.24 |
| **Anthony Basnett** | • Gweithiwr - Broadcom Ltd (VMWARE Ltd. yn flaenorol) o 17.06.19<br>• Cyn-weithiwr, Cisco International Ltd. (wedi dod i ben 16.06.19)<br>• Gwraig – gweithio i Goleg Gwent | 10.12.23<br>21.05.19<br>17.01.18 | 20.02.24 |

| Enw | Manylion y buddiant | Dyddiad y datgelwyd neu diweddarwyd y buddiant | Dyddiad diweddaru neu wirio'r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| **Moawia Bin-Sufyan** | • Cyflogaeth â thâl - Cyfarwyddwr Buddsoddiadau, Governor Investments Ltd<br>• Cyflogaeth â thâl - Cyd-gysylltydd Rhanbarthol, Care After Combat<br>• Cyfarwyddwr Anweithredol - Tai Hendre/Hafod<br>• Aelod - Grŵp Ymgynghori Annibynnol, Academi Filwrol Frenhinol Sandhurst.<br>• Aelod - Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i Banel Annibynnol Ymgynghori a Goruchwylio Cymru<br>• Uwch Aelod Panel Annibynnol - Llywodraeth Cymru (yn cynnwys paneli ar gyfer penodi Cadeirydd y Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) a Chadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesiadau)<br>• Lay Observer – Gweinyddiaeth Gyfiawnder (PECS) Gwasanaeth yn y Ddalfa a Hebrwng Carcharor<br>• Aelod o'r Bwrdd - Bwrdd Monitro Annibynnol Parc CEF<br>• Aelod o'r Cyngor a Thrysorydd - Cyngor Sant Ioan Caerdydd a Bro Morgannwg<br>• Gwirfoddolwr Brechu - Ambiwlans Sant Ioan Cymru<br>• Aelod o'r Panel - Panel Amrywiaeth ITV Cymru<br>• Aelod o'r Bwrdd Gweithredol - Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig - Cangen Caerdydd a'r Fro<br>• Cadeirydd - Bro Ddiogelach - Grŵp Ymgynghorol Cysylltiadau Hîl Cymunedol<br>• Llywodraethwr AALl - Ysgol Gynradd Oak Field<br>• Ynad (Ynad Heddwch\|) -Canol, De Morgannwg a Gwent<br>• Aelod - Bro Morgannwg SACRE<br>• Liveryman – y Worshipful Company of Educators<br>• Freeman –y Worshipful Company of Spectacle Makers<br>• Aelod - Urdd Rhyddfreinwyr Dinas Llundain<br>• Ymddiriedolwr Volunteering Matters (o 01.10.23) | 05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>25.10.24<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>05.01.22<br>10.01.24 | 20.02.24<br>25.10.24<br>10.01.24 |
| **Elizabeth Brimble** | • Cyn-gyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer, Cyngor y Gweithlu Addysg (wedi dod i ben ar 31.08.23) | 29.05.19 | 20.02.24 |
| **Andrew Clark** | • Merch sy'n cael ei chyflogi gan goleg Addysg Bellach arall yng Nghymru<br>• Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgor Archwilio a Risg o fewn y Bwrdd Arholi AQA (daeth i ben 31.03.22)<br>• Cyn-weithiwr, Llywodraeth Cymru (wedi ymddeol 31.01.21)<br>• Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, Archwilio Cymru ((wedi dod i ben ar 30.06.24)<br>• Cymrawd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)<br>• Aelod Bwrdd- CCDG Ltd. (yn masnachu fel Gyrfa Cymru (o 01.08.21)<br>• Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y Cwmni, Maple (140) Ltd, | 01.03.21<br>25.10.22<br>01.03.21<br>20.07.21<br>06.12.21<br>01.08.21<br>25.04.23 | 20.02.24 |
| **Joshua Davies**<br>Penodwyd 22/05/24 | • Myfyriwr, Coleg Gwent | 19.06.24 | 19.06.24 |
| **Delyth Evans** | • Aelod Bwrdd, Chwaraeon Cymru<br>• Ymddiriedolwr, Y Sefydliad Alacrity<br>• Ymddiriedolwr yr Urdd | 11.11.22<br>11.11.22<br>23.10.23 | 16.01.24 |
| **Jamie Farr**<br>Penodwyd ddiwedd mis Chwefror 2024 | • Perchennog/Cyfarwyddwr YourNorth Ltd<br>• Sylfaenydd/Cyfarwyddwr YourNorth Veterans – Cwmni Buddiant Cymunedol | 12.03.21 | 16.01.24 |
| **Eva Franklin**<br>Ymadawr - Mawrth 2024 | • Myfyriwr, Coleg Gwent<br>• Cyflogaeth Rhan Amser - Sinema Maxime, Coed-duon | 03.03.23<br>03.03.23 | 20.03.23 |
| **Christopher Freegard** | • Cyn-lywodraethwyr, Prifysgol De Cymru (wedi dod i ben 31 Gorffennaf 2020)<br>• Cyn-gyfarwyddwr y Prosiect Kaleidoscope | 31.07.20<br>25.10.22 | 20.02.24 |
| **Rhiannon Fowler**<br>Ymadawr - 31.07.24 | • Gweithiwr, Coleg Gwent | 12.01.22 | 20.02.24 |

| Enw | Manylion y buddiant | Dyddiad y datgelwyd neu diweddarwyd y buddiant | Dyddiad diweddaru neu wirio'r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| **Bailjit Gill** | • Cyflogaeth: Uwch Reolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Tŷ'r Cwmnïau | 01.06.22 | 20.02.24 |
| **Joe Horne**<br>Ymadawr - 31.07.24 | • Myfyriwr, Coleg Gwent | 08.09.23 | 01.09.23 |
| **Guy Lacey**<br>(Pennaeth/Prif Weithredwr)<br>Ymadawr 06.09.24 | • Ymgynghorydd, Y PRENTIS (partneriaeth rhwng Cartrefi Melin a Chyngor Sir Fynwy)<br>• Cyfarwyddwr/ Cadeirydd, Colegau Cymru<br>• Cyfarwyddwr, Fforwm Services Ltd. (is-gwmni dan berchnogaeth lawn Colegau Cymru)<br>• Dirprwy Raglaw Gwent<br>• Cyn-lywodraethwr, Ysgol Gyfun y Coed Duon, Caerffili (daeth i ben fis Medi 2022) | 17.04.18<br><br>01.09.18<br>01.09.18<br><br>25.11.21<br>01.09.18 | 20.02.24 |
| **Mark Langshaw**<br>(Cadeirydd) | • Cyfarwyddwr Continental Teves (Cyflogaeth). Mae'r cwmni yn gwsmer hyfforddi ar gyfer y Coleg ac yn cyflogi prentisiaid sy'n mynychu'r Coleg.<br><br>• Cadeirydd, Prosiect Effaith Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (di-dâl)<br>• Cadeirydd Bwrdd Menter Blaenau Gwent (di-dâl)<br>• Cadeirydd Bwrdd Cynghori Strategol, y Cymoedd Technoleg (di-dâl)<br>• Cyfarwyddwr, Fforwm Modurol Cymru (di-dâl)<br>• Cyfarwyddwr, Fforwm Modurol Cymru (di-dâl) | 09.11.16<br><br><br>09.11.16<br><br>09.09.18<br>09.09.18<br><br>09.11.16<br><br>28.06.21 | 20.02.24<br><br><br><br><br><br>20.02.24 |
| **Claire Lloyd**<br>Ymadawr Chwefror 2024 | • Myfyriwr, Coleg Gwent<br>• Hunangyflogedig - Therapi Tylino Chwaraeon St Woolos<br>• Cyflogaeth rhan amser: TATA Steel | 15.03.23<br>15.03.23<br><br>15.03.23 | 20.03.23 |
| **Ray Morrison**<br>Ymadawr 31.07.24 | • Cydberchennog a chyd-gyfarwyddwr, Bowmor Ltd. yn masnachu fel Bluebird Care Casnewydd (darparwr gofal cartref ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion)<br>• Gwirfoddolwr (Hyrwyddwr Cyfeillion Dementia), y Gymdeithas Alzheimers<br>• Aelod, Grŵp Gweithredu Dinas Ystyriol o Ddementia Cyngor Dinas Casnewydd<br>• Aelod, Fforwm Darparwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf<br>• Aelod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Grŵp Cyswllt Gweithredol Gofal Cartref | 09.08.18<br><br><br>09.08.18<br><br>09.08.18<br><br>09.08.18<br><br>09.08.18 | 20.02.24 |
| **John Phelps** | • Ymgynghorydd Addysg a Hyfforddiant Addysg Bellach hunangyflogedig | 29.05.19 | 20.02.24 |
| **Matthew Preece** | • Hunangyflogedig - Ymgynghorydd Busnes, (ynghynt dan fasnachfraint 'Business Doctor') - ymgynghoriaeth taledig i fusnesau ledled Gwent. Cleientiaid yn cynnwys cwmni sy'n darparu gwasanaethau diogelwch i'r coleg.<br>• Is-lywydd BNI Celtic - grŵp rhwydweithio atgyfeirio yng Nghasnewydd<br>• Gwraig - Cyfarwyddwr Ariannol, Aviva | 16.01.20<br><br>16.01.20<br><br><br>16.01.20 | 20.02.24 |
| **Timothy Rathbone**<br>Penodwyd ar 1 Ebrill 2024 | • Cyfarwyddwr (cyflogaeth daledig) - Hoare Lea (ymddeolodd/daeth i ben ar 30/04/24)<br>• Ymddiriedolwr, Ymddiriedolaeth Natur Gwent | 19.04.24<br><br>19.04.24 | 19.04.24 |
| **Maria Retter**<br>Penodwyd ar 24 Gorffennaf 2024 | • Aelod Staff, Coleg Gwent<br>• Llywodraethwr, Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisca | 23.08.24 | 15.10.24 |
| **Wendy Rogers**<br>Wedi ymddeol 31.07.24 | • Aelod staff, Coleg Gwent<br>• Is-gadeirydd, Undeb Prifysgolion a Cholegau, Coleg Gwent<br>• Cadeirydd, Undeb Prifysgolion a Cholegau, Campws Crosskeys | 10.08.18<br>10.08.18<br>10.08.19 | 10.08.18 |
| **Lizzie Swaffield** | • Gweithiwr Sefydliad Education Endowment<br>• Cyfranddaliwr, Moordale Ltd. (Busnes gwasanaethau peirianneg)<br>• Gŵr - perchennog, Moordale Ltd. | 28.09.20<br>07.12.23<br><br>07.12.23 | 20.02.24 |

| Enw | Manylion y buddiant | Dyddiad y datgelwyd neu diweddarwyd y buddiant | Dyddiad diweddaru neu wirio'r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| **Martin Veale**<br>Ymadäwr 31/03/24 | • Aelod Annibynnol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. (Taledig) ac Ymddiriedolwr Elusen Codi Arian Felindre<br>• Aelod Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Chwaraeon Cymru<br>• Cyfarwyddwr, Cwmni Buddiannau Cymunedol Datblygiad Fferm Wynt Pen y Cymoedd Penodwyd yn Gadeirydd 01.10.22<br>• Aelod Lleyg Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Cyngor Sir Penfro<br>• Aelod Lleyg a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>• Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>• Aelod Lleyg Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Mynwy<br>• Aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru<br>• Aelod, Pwyllgor Archwilio, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru<br>• Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, Cymdeithas Tai Hafod, Caerdydd<br>• Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio (yn adrodd i Brif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu dros Dde Cymru) (o fis Mai 2021)<br>• Aelod Lleyg a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (o fis Ebrill 2021)<br>• Aelod Lleyg y Pwyllgor Safonau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>• Aelod Lleyg ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>• Llywodraethwr, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen (di-dâl)<br>• Llywodraethwr, Ysgol 3-16 Newydd, y Ddraenen Wen, Pontypridd<br>• Ynad Heddwch, Mainc Canolbarth Cymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF<br>• Aelod Lleyg, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, CBS Rhondda Cynon Taf<br>• Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, ACAS (â thâl) (o 01.03.23) | 15.03.16<br>01.09.18<br>25.10.22<br>06.09.19<br>11.04.19<br>07.01.21<br>09.06.22<br>20.01.20<br>22.06.22<br>07.01.21<br>10.05.21<br>10.05.21<br>22.06.22<br>22.06.22<br>20.01.20<br>22.06.22<br>12.09.16<br>22.06.22<br>13.02.22 | 20.02.24 |
| **Gareth Watts** | • Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Cyflogaeth yn dechrau 01.08.23)<br>• Cyn-bennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, Senedd Cymru (Daeth cyflogaeth i ben 31.07.23)<br>• Aelod Corff Llywodraethu, Ysgol Meadowbank, Caerdydd<br>• Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio - Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gwent a Heddlu Gwent<br>• Cyn-aelod Allanol Annibynnol o Bwyllgor Archwilio Coleg Gwent | 12.07.23<br>20.10.15<br>17.10.17<br>01.10.22<br>10.10.22 | 20.02.24 |
| **Dorota Lee**<br>(Aelod Allanol)<br>Ymadawr 31.05.24 | • Gweithiwr, Adran Wyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg/BDUK: Arweinydd Sicrwydd Portffolio<br>• Cyn-weithiwr, Swyddfa Myfyrwyr (daeth i ben mis Tachwedd 2021)<br>• Ynad Heddwch, Llys Oedolion a Theuluoedd, Mainc Gwent<br>• Cyn-aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol, CEF Brynbuga (rôl ddi-dâl) Daeth i ben Gorffennaf 2022 | 04.01.21<br>04.01.21<br>23.06.21<br>23.06.21 | 16.01.24 |
| **Farishna Chohan-Solanki**<br>(Aelod Allanol) | • Gweithiwr - Rheolwr Grŵp Rheolaeth Ariannol, Cyfreithiol a Chyffredinol<br>• Cyfarwyddwr a Chyfranddaliwr, Podmed Podiatry | 03.05.23<br>03.05.23 | 16.01.24 |
| **Rafiu Ajayi**<br>(Aelod Allanol)<br>Ymddiswyddodd ar 01.06.24 | • Ymgynghorydd Archwilio - Addysg yn Unig<br>• Cytundeb sero awr fel Ymgynghorydd Annibynnol, Grant Thornton LLP DU | 14.12.23<br>14.12.23 | 16.01.24 |

| Enw | Manylion y buddiant | Dyddiad y datgelwyd neu diweddarwyd y buddiant | Dyddiad diweddaru neu wirio’r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| | • Cyn-weithiwr, Leadway Assurance, Lagos Nigeria (daeth i ben fis Ebrill 2023) | 28.04.23 | |

4.3 **Cytundebau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau**

4.3.1 Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024, ni roddodd Coleg Gwent gytundeb ar gyfer nwyddau neu wasanaethau i unrhyw aelod pwyllgor neu Gorfforaeth, nac i unrhyw sefydliad y mae aelod yn uniongyrchol gysylltiedig ag ef, neu â buddiant ariannol ynddo, oni bai er mwyn mynd ar drywydd ei fusnes cydnabyddedig o ddarparu addysg a hyfforddiant er budd y gymuned leol.

## 5. MONITRO PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU

### 5.1 Dogfennau llywodraethu

5.1.1 Mae Offeryn ac Erthyglau a Rheolau Sefydlog Bwrdd Coleg Gwent yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn parhau’n addas at eu diben. Yn ystod adolygiad mis Mai 2021, cafodd y dogfennau eu hadolygu hefyd gan ymgynghorwyr cyfreithiol y Bwrdd. Adolygwyd y dogfennau ymhellach a’u cymeradwyo ym mis Gorffennaf 2024, a gellir dod o hyd i gopïau o’r fersiwn ddiweddaraf ar wefan y coleg.

5.1.2 Cefnogir gwaith y Bwrdd gan nifer o is-bwyllgorau (gweler adran 6). Mae gan bob un gylch gorchwyl wedi’i gymeradwyo gan y Bwrdd a rhaglen waith flynyddol sy’n cyd-fynd â busnes y coleg. Mae Amserlen Ddirprwyaeth wedi cael ei chymeradwyo i sicrhau cysondeb yn y broses gwneud penderfyniadau.

### 5.2 Perfformiad y Bwrdd

5.2.1 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ragoriaeth a gwelliant parhaus yn llywodraethu'r coleg. I gynorthwyo hyn, mae is-bwyllgorau'n asesu eu perfformiad yn flynyddol ac yn cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer gwella. Mae pob llywodraethwr hefyd yn llenwi Holiadur Hunanasesu Blynyddol lle maent yn myfyrio ar berfformiad cyffredinol y Bwrdd ac ar eu perfformiad unigol ac anghenion datblygu.

5.2.2 Adroddir ar ddadansoddiad o'r atebion i'r Bwrdd ac yna cytunir ar Gynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn. Mae'r atebion hefyd yn llywio drafftio'r Adroddiad Hunanasesu Llywodraethwr Blynyddol. Dilynir y broses hunanasesu gyda thrafodaeth wyneb yn wyneb gyda'r Cadeirydd neu’r Is-gadeirydd.

### 5.3 Rheoli ac Adrodd Perfformiad

5.3.1 Yn 2021, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Gweledigaeth, Cenhadaeth a Strategol ar gyfer y cyfnod hyd at 2026. Datblygwyd y rhain drwy broses ymgynghori ac ar y cyd â thîm rheoli’r coleg. Yn ogystal, cymeradwywyd cyfres o Strategaethau Adrannol a Chwricwlaidd, ynghyd â Chynlluniau Gweithredu manwl ar gyfer pob un. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu hyn yn cael eu monitro gan is-bwyllgorau'r Bwrdd. Adroddir ar Berfformiad a rhagolygon Ariannol mewn cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Yna rhennir y wybodaeth gyda'r Bwrdd llawn drwy adroddiad gan y pwyllgor. Yn yr un modd, caiff recriwtio myfyrwyr ac ansawdd ei fonitro drwy'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd sy'n darparu adroddiad i'r Bwrdd. Mae cynnydd ar brosiectau cyfalaf mawr yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, a rhennir crynodebau 'dangosfwrdd' gyda'r Bwrdd llawn yn gyson er mwyn darparu gwybodaeth. Mae’r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn craffu Adroddiad Hunanasesu’r Coleg ac yn

monitro’r cynnydd yn erbyn y Cynllun Datblygu Ansawdd, ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar y rhain. Mae'r Pennaeth yn darparu adroddiad ym mhob cyfarfod Bwrdd yn amlinellu datblygiadau allweddol yn y coleg a'r sector AB ehangach.

5.3.2 Cytunwyd ar set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol cyffredinol ac adroddir ar berfformiad yn erbyn y rhain i'r Bwrdd yn dymhorol gyda chrynodeb 'dangosfwrdd' un dudalen. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad yn darparu’r Bwrdd, rheolwyr a staff ag esboniad eglur o sut mae perfformiad cyffredinol y coleg yn cael ei fonitro a sut mae perfformiad unigol a thîm yn cyfrannu at gyflawni Nodau Strategol y coleg. Mae rheoli perfformiad yn cael ei adolygu’n gyson ac yn 2025, bydd y Bwrdd yn dechrau ar y broses o ddatblygu Cynllun Strategol newydd i fynd a’r coleg yn ei flaen.

5.3.3 Mae'r Bwrdd yn cymryd sicrwydd mewn meysydd allweddol o gyfrifoldeb llywodraethu drwy ddiweddariadau sicrwydd cyson. Cefnogir y rhain gan adborth gan ein Llywodraethwyr Cyswllt sy'n mynychu cyfarfodydd grwpiau llywio gweithredol ar ran y Bwrdd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw bryderon neu faterion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu dwyn at sylw'r Bwrdd yn brydlon. Mae'r Llywodraethwyr Cyswllt yn ymdrin â phedwar maes allweddol ac yn ystod 2023-24 y rhain oedd:
Andrew Clark - Llywodraethu Gwybodaeth/Seiberddiogelwch
Elizabeth Brimble - Diogelwch
Bailjit Gill - Amrywiaeth a Chynhwysiant
John Phelps - Iechyd a Diogelwch

### 5.4 Bod yn agored a thryloyw

5.4.1 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn atebol yn y modd mae'n cynnal ei fusnes. I gynorthwyo'r ymrwymiad hwn, cymeradwyodd y Bwrdd Bolisi Mynediad at Wybodaeth yn ymwneud â Busnes y Gorfforaeth. Mae'r polisi hwn yn nodi'r broses a'r meini prawf sydd i'w defnyddio pan wneir penderfyniad i ddosbarthu gwybodaeth yn Gyfrinachol.

5.4.2 Cynhwysir eitem Agenda ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor i drafod dosbarthu'r eitemau a drafodir a phapurau cysylltiedig. Seilir dosbarthiad ar y meini prawf a nodir yn y polisi ac adolygir y penderfyniad ar ddosbarthiad yn achlysurol.

5.4.3 Mae agendâu y cyfarfodydd Bwrdd ar gael ar wefan Coleg Gwent ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut i ofyn am gopïau o bapurau ategol a Chofnodion nad ydynt yn gyfrinachol. Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae Cynllun Cyhoeddi yn amlinellu'r math o wybodaeth a gedwir gan y Coleg ar gael ar wefan y coleg.

## 6. GWEITHGAREDDAU’R BWRDD A PHWYLLGOR

### 6.1 Cyfarfodydd Bwrdd

6.1.1 Mae cyfarfodydd o'r Bwrdd a'i bwyllgorau fel arfer yn cael eu cynnal ar un o safleoedd campws y coleg. Mae cyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd hydrid hefyd ar gael. Yn 2023-24, cyfarfu'r bwrdd pum gwaith ar:

- 17 Hydref 2023
- 12 Rhagfyr 2023
- 19 Mawrth 204
- 21 Mai 2024
- 24 Gorffennaf 2024

6.1.2 Y cworwm cytunedig ar gyfer cyfarfodydd/penderfyniadau y Bwrdd a'r pwyllgorau yw 50% o aelodau cymwys Roedd gan bob cyfarfod Bwrdd yn ystod y flwyddyn gworwm.

6.1.3 Yn unol â Rheoliadau Ariannol y Coleg mae'r Bwrdd yn cymeradwyo gwariant cyfalaf o dros £250,000. Yn ystod 2023-24, cymeradwyodd y Bwrdd wariant ar gyfarparu a seilwaith digidol wedi'u hariannu gan Ddigidol 2030 Llywodraeth Cymru a phrynu cyfarpar ar gyfer cyfres o Hybiau 'Mini-HiVE' mewn ysgolion partner ledled Caerffili ac ardaloedd Torfaen. Ariannwyd yr hybiau gan grant y Bwrdd Cymoedd Technoleg. Cymeradwywyd gwariant o £288k ar waith cynnal a chadw sy'n dyddio'n ôl.

## 6.2 Pwyllgorau

6.2.1 Cefnogir gwaith y Bwrdd gan bump is-bwyllgor. Mae gan bob pwyllgor Gylch Gorchwyl wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae gan y pwyllgorau gynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sy'n cyd-fynd â'u Cylch Gorchwyl. Mae strwythur y pwyllgorau'n galluogi adolygiad a thrafodaeth fanylach ynghylch meysydd penodol ac mae'n cynorthwyo Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth fanylach o agweddau penodol o'r coleg.

6.2.2 Mae pob pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd, gan grynhoi ei weithgareddau, amlygu materion allweddol at sylw'r Bwrdd ac yn argymell awgrymiadau ar eitemau i'w cymeradwyo. Darperir copïau ychwanegol o gofnodion a dogfennau allweddol hefyd ar gael i gyfeirio atynt. Mae eitemau at ddiben gwybodaeth a sicrwydd wedi eu crynhoi mewn adroddiad arall.

6.2.3 Y pwyllgorau yw:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | Cadeirydd – Chris Freegard |
| Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd | Cadeirydd - Elizabeth Swaffield |
| Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau | Cadeirydd - Anthony Basnett |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth | Cadeirydd - Sue Ball |
| Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol | Cadeirydd - Mark Langshaw |

## 6.3 Pwyllgor Archwilio

6.3.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio'n gweithredu o fewn gofynion
Cod Ymarfer Archwilio AU Llywodraeth Cymru (ACOP) ac yn cynnwys pedwar Llywodraethwr ac
Aelodau Allanol ychwanegol. Mae gan sawl aelod brofiad arbenigol o archwilio, cyfrifeg neu lywodraethu.

6.3.2 Mae aelodaeth y pwyllgor yn eithrio Cadeirydd y Gorfforaeth a'r Pennaeth/Prif Weithredwr ynghyd â'r Staff a Llywodraethwyr sy'n Fyfyrwyr. Yn ychwanegol, ni all yr un aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pennaeth a'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn mynychu'r holl gyfarfodydd y pwyllgor ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Gwahoddir aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arwain i fynychu fel bo'r angen, i gynorthwyo trafodaethau penodol.

6.3.3 Mae cynrychiolwyr o wasanaeth Archwilio Mewnol y coleg (TIAA Ltd.) a'r Archwilwyr Allanol (PwC) yn mynychu pob cyfarfod. Mae'r pwyllgor yn cynnal trafodaethau cyfrinachol gyda'r
ddau gynrychiolydd bob blwyddyn. Caiff holl staff y coleg (yn cynnwys y Swyddog Llywodraethu a'r Pennaeth) eu heithrio o'r trafodaethau hyn.

6.3.4 Yn 2023-24, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith ar:

- 28 Tachwedd 2023
- 5 Mawrth 2024
- 7 Mai 2024
- 2 Gorffennaf 2024

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio.

6.3.5 Ar ôl bob cyfarfod, mae'r pwyllgor yn darparu adroddiad diweddaru i'r Bwrdd ynghyd â chopi o gofnodion drafft a phapurau perthnasol. Fel y gofynnir gan yr ACOP, mae'r pwyllgor hefyd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol manwl i'r Bwrdd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o fusnes y pwyllgor ac yn cynnig barn y Pwyllgor Archwilio ar brosesau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu'r Coleg. Mae barn y Pwyllgor Archwilio yn seiliedig ar ei waith ei hun a gwaith archwilwyr mewnol ac allanol ar gyfer y flwyddyn, gyda'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'w adolygu gan y Bwrdd ar yr un pryd. Yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd, mae'r adroddiadau hyn yn llunio rhan o gyflwyniadau blynyddol y Gorfforaeth i Lywodraeth Cymru.

DS: (o fis Awst 2024, gwnaeth Medr (y Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil) ddod i rym ar gyfer rheoleiddio colegau yng Nghymru a'u goruchwylio a bydd cyflwyniadau blynyddol bellach yn cael eu gwneud i Medr.

## 6.4 Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd

6.4.1 Mae'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn goruchwylio perfformiad a datblygiadau allweddol ym mhob maes sy'n ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Mae'n monitro cynllunio a darparu'r cwricwlwm, yn ogystal â chynnydd ar weithredu'r Strategaethau Addysgu a Dysgu, Cwricwlwm a Sgiliau a Strategaethau Cyfadran. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu diweddariadau cyson ar recriwtio, cadw, presenoldeb, asesu a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae meysydd goruchwylio eraill yn cynnwys ymwneud myfyrwyr, Diogelu, Anghenion Dysgu Ychwanegol, a Marchnata.

6.4.2 Ymhlith aelodau'r pwyllgor mae 11 Llywodraethwr, yn cynnwys tri Myfyriwr Llywodraethwr a'r Llywodraethwr Staff Addysgu.

6.4.3 Mae aelodau allweddol yr Uwch Dîm Arwain hefyd yn mynychu cyfarfodydd:

- Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd)
- Is-bennaeth (Partneriaethau a Thaith y Dysgwr)
- Cyfarwyddwyr Cyfadrannau (x3)
- Cyfarwyddwr Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr
- Cyfarwyddwr Cwricwlwm a Gwasanaethau Gwybodaeth

O fis Medi 2024, bydd yr Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

6.4.4 Yn 2023-24, cyfarfu'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd bedair gwaith ar:

- 24 Hydref 2023
- 16 Ionawr 2024
- 16 Ebrill 2024
- 11 Mehefin 2024

Roedd pob cyfarfod y pwyllgor â chworwm.

6.5 **Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

6.5.1 Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'n cynghori'r Bwrdd ac yn monitro perfformiad ar faterion yn ymwneud â rheoli cyllid (yn cynnwys perfformiad, gosod cyllideb ac iechyd ariannol), adnoddau dynol, TGCh ac ystadau. Mae'r pwyllgor yn monitro cynnydd wrth weithredu Cynlluniau Strategol ym mhob un o'r meysydd hyn yn ogystal â phrosiectau cyfalaf mawr.

6.5.2 Ymhlith yr aelodau mae 8 Llywodraethwr, yn cynnwys y Staff Cefnogi Busnes Llywodraethwr. Mae aelodau allweddol yr Uwch Dîm Arwain hefyd yn mynychu cyfarfodydd:

- Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio)
- Cyfarwyddwr Cyllid ac Ystadau
- Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Allanol
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Cyfarwyddwr TGCh

6.5.3 Yn 2023-24, cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith ar:

- 21 Tachwedd 2023
- 27 Chwefror 2024
- 23 Ebrill 2024
- 25 Mehefin 2024

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

6.6 **Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu**

6.6.1 Mae'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu yn cynghori'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud ag
aelodaeth y Gorfforaeth gan gynnwys aelodau'r Bwrdd, recriwtio Aelodau, rheoli perfformiad, datblygu Llywodraethwyr a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae hefyd yn cynghori'r Bwrdd ar faterion llywodraethu ehangach yn cynnwys goblygiadau newid mewn
deddfwriaeth ac ymgynghoriadau cenedlaethol ar lywodraethu AB. Mae hyn yn cynnwys monitro cynnydd a gweithrediadau sy'n dod i'r amlwg o weithrediad Medr.

6.6.2 Er bod penodiad i'r Gorfforaeth yn gyfrifoldeb y Bwrdd yn gyffredinol, mae'r pwyllgor yn goruchwylio'r broses recriwtio ac yn cwrdd â'r holl aelodau posibl. Mae'n rhaid i bob penderfyniad i benodi aelod newydd gael ei wneud yn unol â chyngor gan y pwyllgor.

6.6.3 Mae'r pwyllgor yn cynnwys pum Llywodraethwr yn cynnwys y Cadeirydd ac Is-gadeirydd y
Gorfforaeth a'r Pennaeth/Prif Weithredwr, a dau Lywodraethwr annibynnol arall. Ar adegau, gwahoddir Llywodraethwr Myfyrwyr i gymryd rhan pan mae'r pwyllgor yn cwrdd ag ymgeiswyr sydd i'w penodi.

6.6.4 Yn 2023-24, cyfarfu'r pwyllgor chwe gwaith ar:

- 19 Medi 2023
- 22 Tachwedd 2023
- 19 Chwefror 2024
- 11 Mawrth 2024
- 30 Ebrill 2024

- 03 Gorffennaf 2024

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

## 6.7 Presenoldeb y Gorfforaeth

6.7.1 Caiff presenoldeb ei fonitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth. Pan fo presenoldeb unrhyw unigolyn neu bwyllgor yn rhoi achos i bryderu, mae camau priodol yn cael eu cymryd.

6.7.2 Roedd presenoldeb yn y cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor yn 2023-34 fel a ganlyn:

| **Presenoldeb 23-24** | |
|---|---|
| Bwrdd | 69% |
| Pwyllgor Archwilio | 96% |
| Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd | 64% |
| Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau | 73% |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth | 88% |
| Seminarau Strategaeth | 57% |
| Presenoldeb cyffredinol | 71% |

6.7.3 Rhannwyd data presenoldeb yn achlysurol gyda'r Bwrdd a'r Llywodraethwyr i'w hatgoffa o bwysigrwydd cynnal presenoldeb da i gynorthwyo eu datblygiad a dealltwriaeth bersonol, ac i sicrhau bod y Bwrdd yn gallu defnyddio ystod lawn o sgiliau ac arbenigedd sydd ar gael.

# 7. DEILIAID SWYDDI UWCH

## 7.1 Pwyllgor Cydnabyddiaeth

7.1.1 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cael ei Gadeirio gan Mr Langshaw fel Cadeirydd y Llywodraethwyr ac yn cynnwys yr Is-gadeirydd a dau Lywodraethwr Annibynnol arall. Mae'n cyfarfod i ystyried perfformiad, telerau ac amodau a thâl y Deiliaid Swyddi Uwch:

- Pennaeth/Prif Weithredwr
- 3 Is-bennaeth
- Swyddog Llywodraethu

7.1.2 Yn ystod 2023-24, ymgymerodd y Bwrdd ag adolygiad llawn ar yr holl bolisïau Deiliaid Swyddi Uwch, ac yn dilyn hyn cafodd Llawlyfr Deiliaid Swyddi Uwch ei gymeradwyo. Digwyddodd hyn ar yr un adeg ag ymddeoliad y Pennaeth ar y pryd, ail-strwythuro'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol, a phenodiad tri Deiliad Swyddi Uwch.

7.1.3 Yng nghyfarfod Hydref 2023 y Bwrdd, cymeradwyodd y Llywodraethwyr ddyfarniad cyflog i bob aelod arall o staff. Yn dilyn hyn, bu i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2023, ac yn dilyn trafodaethau, gwnaethant argymhelliad i'r Bwrdd y dylai Deiliaid Swyddi Uwch dderbyn dyfarniad yn ôl yr un telerau â gweddill y staff. Wrth ystyried tâl Deiliaid Swyddi Uwch, mae'r pwyllgor yn ystyried nifer o ffactorau yn cynnwys perfformiad, data meincnodi priodol ac unrhyw gydnabyddiaeth tâl ddiweddar a gafwyd gan staff. Cymeradwywyd y dyfarniad tâl Deiliaid Swyddi Uwch yng nghyfarfod Rhagfyr 2023 y Bwrdd.

## 7.2 Recriwtio Deiliaid Swyddi Uwch

7.2.1 Ym mis Hydref 2023, hysbysodd Pennaeth/Prif Weithredwr Coleg Gwent ar yr adeg, Guy Lacey, y Bwrdd o'i fwriad i ymddeol ym mis Medi 2024. Cymeradwyodd y Bwrdd gynllun ar gyfer ail-strwythuro'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol. Ymgymerwyd ag ymarferion recriwtio ar gyfer swydd y Pennaeth/Prif Weithredwr, yn ogystal â'r swydd newydd fel Is-Bennaeth (Partneriaethau a Thaith Dysgwyr). Yn dilyn penodiad Ms Nicola Gamlin i'r swydd Pennaeth/Prif Weithredwr, cynhaliwyd proses recriwtio arall i ddod o hyd i berson newydd i ymgymryd â'i rôl flaenorol fel Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd).

7.2.2 Sefydlwyd panel recriwtio ar gyfer pob swydd yn cynnwys:

<u>Y Swydd Pennaeth/Prif Weithredwr </u>- Y Cadeirydd, Is-gadeirydd a phedwar Llywodraethwr annibynnol ; a

<u>Swyddi Is-benaethiaid </u>- Y Cadeirydd, Is-gadeirydd a dau Lywodraethwr annibynnol.

## 8. DATBLYGIADAU ALLWEDDOL

8.1 Un o brif feysydd dan sylw'r Bwrdd yn ystod 2023-24 oedd Iechyd Ariannol, yn arbennig mewn perthynas â phwysau cyllidebu a phrosiectau cyfalaf y dyfodol. Edrychodd y Llywodraethwyr ar hyn yn fanwl yn y Seminar Strategaeth ym mis Mawrth 2023 ac unwaith eto yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2023. Cytunwyd ar Gynllun Gweithredu Iechyd Ariannol ac mae wedi'i roi ar waith gan dîm rheoli'r coleg, gyda chysylltiad agos y rheolwyr a chydweithwyr Partneriaeth Gymdeithasol. Derbyniodd Bwrdd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ddiweddariadau ym mhob cyfarfod drwy gydol y flwyddyn, a chyfrannodd y broses at osod Cyllideb 2024-25.

Mae prosiectau allweddol cyfalaf Ystadau wedi derbyn oediadau pellach, ond mae'r Bwrdd yn falch o rannu bod y cynlluniau ar y gweill i fod yn barod ar gyfer yr HiVE newydd (Canolfan Peirianneg Uchel ei Werth) i agor yng Nglyn Ebwy ym mis Medi 2025.

Mae'r broses o ddatblygu campws canol dinas newydd yng Nghasnewydd (Ardal Wybodaeth Casnewydd) yn dangos cynnydd. Mae cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl, ond mae'r Bwrdd yn parhau i dderbyn diweddariadau ac mae disgwyl y bydd y prosiect yn symud i'r camau nesaf yn 2024-25.

Yn ystod 2023-34, cymeradwyodd y Bwrdd Brif Gynllun ar gyfer datblygu Campws Crosskeys sydd eisoes yn bodoli. Bydd hwn yn gynllun camau 9 mlynedd i wella trefn a diweddaru adeiladau gyda chyllid gan y Cyllid Cymunedau Cynaliadwy i Ddysgu. Mae disgwyl i'r gwaith ar Gam 1 ddechrau yn ystod 2025 a gorffen yn 2027.

## 9. SWYDDOG LLYWODRAETHU

9.1 Parhaodd Mrs Marie Carter i fod yn Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent drwy gydol 2023-24. Mae Mrs Carter yn meddu ar Dystysgrif Uwch y Sefydliad Llywodraethu Siartredig mewn Llywodraethu Corfforaethol. Mynychodd Mrs Carter bob cyfarfod a gynhaliwyd gan y Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod y flwyddyn, gan eithrio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

9.2 Yn ystod 2023-34, cymerodd y Swyddog Llywodraethu ran mewn hyfforddiant a datblygu ar:

- Diogelwch Data a Rhyddid Gwybodaeth

- Gwrth-dwyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrth-lygru
- Iechyd a Diogelwch
- Amrywiaeth
- Diogelu

Yn ogystal, mynychodd Gynhadledd Flynyddol Colegau Cymru ac ymuno â sesiwn friffio ar-lein ar benodiad Medi. Yn ychwanegol, darparodd bresenoldeb mewn cyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu AB Cymru’r cyfle i rannu’r arfer orau a thrafod datblygiadau allweddol yn y sector AB yng Nghymru gyda swyddogion llywodraethu proffesiynol eraill

## 10. DATGANIAD SICRWYDD

Cyn belled ag y gall fod yn rhesymol ymwybodol, mae Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent yn fodlon bod Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent wedi bodloni ei chyfrifoldebau statudol yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024. Ymgymerwyd â holl fusnes y Bwrdd a’i bwyllgorau yn unol â chanllawiau deddfwriaethol a statudol priodol ac Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent. Mae hi hefyd o'r farn bod gweithgareddau'r Gorfforaeth yn adlewyrchu'r disgwyliadau arfer orau fel y'u nodwyd yn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.

**Marie Carter**
**Swyddog Llywodraethu** **Dyddiad:**

Mae Bwrdd Corfforaethol Coleg Gwent wedi adolygu'r adroddiad hwn a chyn belled ag y gall fod yn rhesymol ymwybodol, mae’n fodlon ei fod yn gofnod manwl gywir a theg o weithgareddau’r Gorfforaeth yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024.

**Mark Langshaw MBE**
**Cadeirydd y Llywodraethwyr** **Dyddiad:**